

WG35.5.50

PENNILLION

Handwritten cursive text, possibly a signature or title, partially obscured by the printed text.

AR

FARWOLAETH

Handwritten cursive text, possibly a signature or title, partially obscured by the printed text.

Y PARCH. JOSHUA EVANS,

Handwritten cursive text, possibly a signature or title, partially obscured by the printed text.

GWEINIDOG YR ANNIBYNWYR,

Handwritten cursive text, possibly a signature or title, partially obscured by the printed text.

YN Y CYMMER, MORGANWG.

Yr hyn a ddygwyddodd ar y 18fed o Fawrth, 1855, oed 57.

GAN EBENEZER SALATHIEL, DINAS.

MERTHYR:

ARGRAFFWYD GAN REES LEWIS, HEOL FAWR.

1855.

4205308604

PENNILLION.

Trwm yw 'r newydd sydd i'w glywed,
Draw ac yma trwy ein gwlad ;
Angeu glas ei gledd, sy 'n ysgar,
Rhwing perth'nasau—mam a thad ;
Weithiau tery ie'ctid hawddgar,
Er mor hardd a fyddo 'u gwedd,
Fel na cheir un man i'w gosod,
Ond i orwedd yn y bedd.

Brydiau eraill, try 'r penteulu,
O afaelion gwraig a phlant ;
Pan ddaw gwys o lys Omega,
Rhaid yw myn'd o'r byd i bant ;
Rhaid i'r brenin ar ei orsedd,
Ymherawdwyd byd o'r bron,
Wrth ei ddwys orchymyn nefol,
Brysur blygu ger ei fron.

Och! daeth i'r gym'dogaeth yma,
Yn mis Mawrth, deunawfed dydd ;
Aeth ag Ifans gu o'n gafael,
Er gwneyd torf a'u bronau 'n brudd ;
Gwnaethpwyd ymdrech gan feddygon,
Am rai misoedd nos a dydd ;
Ond yn ofer aeth eu llafur,
Pan ddaeth angeu a'i saeth gudd.

Collodd Sion fugail ffyddlon,
 Collodd plant anwylaidd dad,
 Collodd ardal un fu drostynt,
 Am arbediad yn y gwa'd;
 Collai 'r hen a'r rhai cystuddiol,
 Gyfaill wrtho i draethu eu cwyn;
 Un â mynwes dwym dosturiol,
 I goleddu 'r gwanaidd wyn.

Yn ngodreu 'r rhos ger Ystradgunlais,
 Pan yn dechreu 'i dduwiol daith,
 Ca'dd ei ddewis yn genadwr,
 I fynegu rhyfedd waith;
 Ond y Cymmer ga'dd ei lafur,
 Am dri-deg o flwyddi llawn;
 Diwyd weithiodd yn y winllan,
 Nes machludo haul brydnawn.

Ni lwfrhaodd gyda 'i orchwyl,
 Er cael rhwystrau ar y ma's,
 Bu 'n wir ffyddlawn a llafurus,
 Llanwai 'i gylchoedd gyda blas;
 Cadwai 'i ddillad heb lychwino,
 Trwy anialwch gwag y byd:
 'Roedd ei goron yn dysgleirio,
 A thlysau gwell na pherlau drud.

Safai 'n ddewr ar furiau Sion,
 Yn nhywyllwch dudew 'r nos;
 Haeddiant Iesu oedd ei ymffrost,
 A rhinweddau marwol loes;
 Bwriad lor mewn cynghor boreu;
 Rhad arfaethiad Tri yn Un,
 Er cael urddo gwael bechadur,
 A gogoniant Mab y Dyn.

Pump o ddegau oedd ei oedran,
 Saith yn rhagor gyda hyn,
 Pan adawodd rosydd Moab,
 Ar derfynau eitha 'r glyn;
 Teimlai feini 'r addewidion,
 Yn ddisigl iawn yn siwr,
 Gwelai 'i ffyddlon Archoffeiriad,
 Yno 'n tori grym y dw'r.

Ar yr unfed dydd ar ugain,
 Casglodd yma dyrfa fawr;
 Rhoed ei gorph tan gudd i orwedd,
 Hyd yr adgyfodiad mawr,
 Lle y cysga 'i hun yn dawel,
 Yn mysg torf o frodyr cu;
 Pan ddihunant melus ganant
 Am rinweddau Calfari.

Wylai 'r plant ac wylai 'r brodyr,
 Wylai 'r Eglwys oll o'r bron,
 Wrth roi un fu gynt mor anwyl,
 I hir orwedd dan y don;
 Ond gobeithiem, wrth ymadael,
 Gael cyd-gwrdd mewn agwedd well,
 Wedi croesi 'r hen Iorddonen
 Ar ororau 'r gwledydd pell.

Chwi ei blant sy'n teimlo hiraeth,
 Mewn mawr alar gwn eich bod—
 Coll'soch un oedd gysgod i chwi
 'Mhob rhyw 'stormydd all'sai fod;
 Dwys fyfyriwch ei gynghorion,
 Ceisiwch Iesu i chwi 'n rhan,
 Hyny a'ch coda i anrhydedd,
 Fe a'ch ceidw rhag pob cam.

Tithau Sion sych dy ddagrau,
 Cred fod Ifans wrth ei fodd ;
 Gwn pe rhoddid bydoedd iddo,
 Na ddychwelai byth yn ol,
 Llwyrr-adawodd wlad y cystudd,
 Tristwch, gofid, poen a gwae,
 Ca'dd yr hyn ddymunodd gannwaith—
 Gweled Iesu fel y mae.

Mab tangnefedd oedd ei enw,
 Mewn tangnefedd carai fyw ;
 Aeth i afael pur dangnefedd,
 Lle 'r arosa gyda 'i Dduw ;
 Llwyrr-adawodd swm y rhyfel,
 Yn yr anial ar ei ol ;
 Cafodd afael ar lawenydd
 Gyda 'r hyfryd nefol gor.

Er ymchwilio 'n ddwys am dano
 Trwy 'r holl gylchoedd buodd gynt ;
 Rhaid dychwelyd heb ei weled,
 Yn drallodus iawn fy hynt ;
 Nid gwiw dysgwyl yn Nghystylla,
 Wylir yno 'r dagrau 'n lli',
 Ofer gofyn yn Llanharan,
 Gwybu 'r brodyr fel y bu.

Mae 'm dychymyg yn ymwibio,
 Lawer gwaith yn hyd y dydd,
 O'r eigionau lle 'rwy 'n aros,
 Uwch y fan lle mae dan gudd ;
 Sylla arno am fynydyn,
 Dychwel ataf fel o'r blaen ;
 D'wed, mae Ifans yn llygredig,
 Ymborth yw i'r pryted mân.

Brydiau eraill, par i'm dybied,
 'Mod i'n clywed sw'n ei iaith,
 Uwch fy mhen yn traethu 'n groew,
 'R hyn a glywais lawer gwaith;
 Nes edrychwyf i'r areithfa,
 Gwelaf yno 'r brethyn du,
 Dengys hwnw 'n eglur imi,
 Nad ein Hifans yno sy'.

A oddyno i'r cwrdd gweddi,
 Gan ymholi 'n ddystaw bach,
 A yw Ifans oddicartref,
 Neu a yw e ddim yn iach,
 Nid oedd yno ond dystawrwydd
 Gan y brodyr oll o'r bron,
 Hawdd oedd gwybod wrth eu hagwedd,
 Y teimlent oll yr archoll hon.

Nid gwiw dysgwyl mwy am dano,
 Ni chaf bellach wel'd ei wedd,
 Yn y ty nac yn yr Eglwys,
 Tra bwy 'r ochr hyn i'r bedd,
 Llefaf beunydd am barodrwydd,
 I gael cwrdd tudraw i'r llen,
 I gyd-foeli byth heb dewi,
 Y gwr fu farw ar y pren.

Anwyl frodyr a chwiorydd,
 Dwys ruddfanwch tua 'r ne',
 Ar i'r Llywydd mawr ei hunan,
 Anfon un a lanwo 'i le;
 Un fel Dafydd, dewr a gwrol,
 I orchfygu 'r duwiau mân,
 Ac fel Moses mewn llarieidd-dra,
 I'n bugeilio yn y bla'n.

Boed i'r nef o'i rhad drugaredd,
 Ro'i bendithion fyrdd i lawr,
 Yn eu dylanwadau nerthol,
 Nes dychwelyd tyrfa fawr ;
 'R hen fwriadau cyn bod amser,
 Ffrwyth yr arfaeth ddelo 'i ben ;
 Iesu 'n unig gaffo 'i godi,
 Hyn yw 'm gweddi byth, Amen.